O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 3374 (Cy. 338)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffin Powys/Sir Gaerfyrddin i'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Rhagfyr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *8 Rhagfyr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Rhagfyr 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffin Powys/Sir Gaerfyrddin i'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("t*he length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 350 metr i'r de-orllewin o'r tŷ annedd a elwir Bylchau hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A489 yn Ffordd Dolfor, y Drenewydd;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 8 Rhagfyr 2014 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 30 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar gyflymder mwy na 10 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darn o’r gefnffordd yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**8.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Rhagfyr 2014

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.